# Cartrefi yng Nghymru cyn 1000 CC

Archaeoleg ar eich Stepen drws

Mae pobl wedi byw yng Nghymru yn barhaus am dros 11,000 o flynyddoedd, ond mae ffurf ein cartrefi heddiw yn beth gweddol newydd. Mae'r canllaw hwn yn cyflwyno'r mathau o gartrefi oedd yn gyffredin tan ychydig filoedd o flynyddoedd yn ôl.

Dewch o hyd i ragor o ganllawiau archaeoleg neu cysylltwch ag archaeolegwyr yr Amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws neu ar Twitter @SF_Archaeology

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

national museum wales
amgueddfa cymru

002



## Llochesau wedi eu hadeiladu gyda pholion *9700 CC -*

Tan tua 1000 CC, roedd y mwyafrif o bobl mwy na thebyg yn byw mewn llochesau dros dro fel hwn.

Yn berffaith ar gyfer teulu sy'n symud o gwmpas, roedden nhw'n hawdd i'w hadeiladu o ddeunyddiau oedd ar gael yn gyffredin - canghennau, deiliach a glaswellt.

Ond pris symlrwydd oedd bregrusrwydd, a byddai llochesau fel hyn yn gorfod cael eu trwsio yn aml pan fyddai'r tywydd yn wael.



## Tai hir

*3750 - 3500 CC*

Roedd ffermwyr cyntaf Cymru yn byw mewn tai hir.

Wedi eu llunio o goed pren mawr ac wedi eu creu i bara cenhedlaeth, roedden nhw'n ddatganiadau pensaernïol trawiadol.

Ond ni wnaeth y traddodiad o adeiladu tai hir bara. Efallai nad oedden nhw'n gweddu ffordd o fyw oedd yn dal i ymwneud â symud o le i le.

Ni adeiladwyd unrhyw beth mwy crand am 2,000 o flynyddoedd wedi hynny.



## Tai crwn gyda waliau polyn


*2500 - 2000 CC*

Câi rhain eu hadeiladu o gwmpas aelwyd sgwâr, gan ddefnyddio polion unionsyth tenau gyda changhennau hyblyg wedi eu plethu rhyngddynt.

Roedden nhw'n strwythurau ysgafn, ond roedd eu siâp crwn yn eu gwneud nhw'n ddigon cryf i gynnal to trwm.

Mae tai tebyg wedi cael eu canfod yn ne Lloegr a hyd yn oed ar ynysoedd Erch (Orkney).

Cafodd y cynllun ei fabwysiadu eto ar ôl 1000 CC.



## Tai crwn twll-pyst

*1500 CC -*

Gallai tai cryfach gael eu hadeiladu drwy osod prennau mawr yn unionsyth mewn tyllau yn hytrach na gwthio polion i mewn i'r ddaear.

Roedd canghennau'n parhau i gael eu plethu mewn paneli rhwng y pyst hyn, ond gallai rhain gael eu cyfnewid heb dynnu'r holl adeilad i lawr.

Y cynllun hwn oedd y templed ar gyfer y rhan fwyaf o dai crwn Oes yr Haearn ar draws Cymru cyn 1000 CC.



## Tai crwn gyda waliau clai

*1500 CC -*

Gellid creu waliau cryf drwy gymysgu clai gyda gwellt a cherrig bach.

Roedd y tai crwn hyn yn dwym ac wedi eu hinsiwleiddio'n dda. Roedd eu waliau hefyd yn gallu cynnal mwy o bwysau a oedd yn golygu y gallai'r tai fod yn fwy na strwythurau polion neu byst.

Mae clai yn parhau i fod yn ddeunydd adeiladu ymarferol ac ecogyfeillgar.